**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1328
Ein cyf/Our ref JMSS/00158/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth ynghylch y ddeiseb (P-06-1328) i sicrhau bod yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol newydd o £10.90 yn unol â dyddiad gweithredu'r Sefydliad Cyflog Byw Gwirioneddol.

Fel y gwyddoch, caiff y Cyflog Byw Gwirioneddol ei gyfrifo'n annibynnol gan y Sefydliad Resolution a'i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw, fel rhan o broses flynyddol. Eleni, daeth cyhoeddiad y Sefydliad Cyflog Byw fis yn gynharach ar 22 Medi, yn sgil pwysau costau byw. Mae'r sefydliad yn annog pob cyflogwr achrededig i godi ei Gyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer staff cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, nid yw'r dyddiad cau wedi newid a bydd angen codi'r cyflog erbyn mis Mai 2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella telerau ac amodau cyflogaeth yn y sector gofal cymdeithasol. Rydym yn ymwybodol o'r angen brys am gymorth er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thâl, recriwtio a chadw, a waethygodd yn dilyn yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig Covid, a nawr yr argyfwng costau byw. Dyma pam, ym mis Ebrill 2022, roeddem yn falch o allu darparu £43 miliwn o gyllid yn ystod 2022/23, a ddarparodd godiad cyflog hanfodol i grŵp o weithwyr allweddol.

Roeddem yn falch iawn ein bod yn gallu cynnal yr ymrwymiad hwn i weithwyr gofal cymdeithasol gydag amcangyfrif o £70 miliwn yn 2023/24 er mwyn talu codiad y Cyflog Byw Gwirioneddol o £10.90 yr awr, gyda gweithwyr yn gweld budd hyn erbyn mis Mehefin 2023. Mae cynlluniau cyllidebau Llywodraeth Cymru yn cael eu cytuno yn ystod yr Hydref ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i godi'r cyflog nac ymrwymo i ragor o gyllid gan nad oes gennym unrhyw gronfeydd wrth gefn eleni er mwyn gallu gweithredu'r codiad cyflog yn gynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein blaenoriaeth gyntaf, yng nghyd-destun y pwysau ehangach y mae’r sector yn eu hwynebu, yw cael y cyllid rydym eisoes wedi’i addo i bocedi’r gweithwyr. Mae cannoedd o weithwyr ym maes gofal cymdeithasol ac mae hwn yn ymrwymiad sylweddol a chymhleth. Roeddem yn falch ein bod wedi gallu darparu’r cyllid ychwanegol hwn er mwyn rhoi’r codiad cyflog, yr oedd wir ei angen arnynt, i staff gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services